Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: 19 Tachwedd 2024

Crynodeb o funudau'r cyfarfod a chynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 19 Tachwedd 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 19 Tachwedd 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-19-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Yn bresennol** (https://www.llyw.cymru#160843)

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru#160845)

**Unrhyw faterion eraill** (https://www.llyw.cymru#160847)

**Y cyfarfod nesaf** (https://www.llyw.cymru#160849)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-19-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Yn bresennol

- Frances Duffy, Cadeirydd
- Saz Willey, Is-gadeirydd
- Bev Smith, aelod
- Kate Watkins, aelod
- Dianne Bevan, aelod
- Sara Rees, ysgrifenyddiaeth
- Leighton Jones, ysgrifenyddiaeth

## Rhanddeiliaid allanol oedd yn bresennol yn y cyfarfod

### Cynrychiolwyr o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

- Roger Ashton-Winter
- Cher Cooke

# Cyflwyniad

Cynhaliwyd cyfarfod o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) ddydd Mawrth 19 Tachwedd.

Nod y cyfarfod oedd:

- Adolygu'r cofnodion a'r crynodeb o gyfarfod mis Hydref a chytuno arnynt, nodi diweddariad yr Ysgrifenyddiaeth a'r diweddariad ar y gyllideb, ac adolygu a diweddaru'r cynllun gweithredol ar gyfer 2024 i 2025.
- Ystyried a chytuno ar nifer o bapurau a gyflwynwyd i'r Panel, sef:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-19-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

- dadansoddiad o'r holl lwfansau a dalwyd i aelodau prif gynghorau, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn 2023 i 2024
- dadansoddiad o'r holl lwfansau a dalwyd i aelodau cynghorau cymuned a thref yn 2023 i 2024
- taliadau cydnabyddiaeth ariannol i aelodau cyfetholedig mewn prif gynghorau
- adolygu'r adroddiad etifeddiaeth sydd wedi ei ddiweddaru

Isod, ceir crynodeb o drafodaethau a phenderfyniadau'r Panel.

## Camau gweithredu, yr Ysgrifenyddiaeth a'r gyllideb: diweddariadau

### Cytunodd y Panel ar y cofnodion a'r crynodeb o gyfarfod mis Hydref, gan nodi'r diweddariad ar y gyllideb. (https://www.llyw.cymrunull)

Fe wnaeth y Panel adolygu a thrafod yr ohebiaeth a oedd wedi dod i law oddi wrth dri Chyngor Cymuned a Thref, a dau Brif Gyngor, a'i ymateb i bob un.

## Datganiad o daliadau 2023 i 2024: prif gynghorau, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol

### Ystyriodd y Panel bapur ar ddatganiad ynghylch y taliadau a wnaed i aelodau prif gynghorau, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn 2023 i 2024. (https://www.llyw.cymrunull)

Rhoddodd y papur ddadansoddiad i'r Panel o'r holl lwfansau a dalwyd, ynghyd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-19-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

â'r tueddiadau blynyddol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i greu sail ar gyfer gwaith yn y dyfodol, ac i weld pa mor effeithiol yw'r fframwaith taliadau cydnabyddiaeth ledled Cymru.

## Datganiad taliadau 2023 i 2024: cynghorau cymuned a thref

**Bu'r Panel yn ystyried papur ar y datganiad ynghylch y taliadau a wnaed i aelodau Cynghorau Cymuned a Thref yn ystod 2023 i 2024.** (https://www.llyw.cymrunull)

Rhoddodd y papur ddadansoddiad i'r Panel o'r holl lwfansau a dalwyd, ynghyd â'r tueddiadau blynyddol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i greu sail ar gyfer gwaith yn y dyfodol, ac i weld pa mor effeithiol yw'r fframwaith taliadau cydnabyddiaeth ledled Cymru.

## Adroddiad etifeddiaeth

Rhoddwyd diweddariad i'r Panel ar hynt yr adroddiad etifeddiaeth. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys meysydd o ddiddordeb y gallai fod angen rhoi ystyriaeth bellach iddynt yn y dyfodol, megis cynrychiolaeth ieuenctid ac aelodau cyfetholedig.

## Taliadau cydnabyddiaeth i aelodau cyfetholedig y prif gynghorau

**Cyflwynwyd papur i'r Panel ar daliadau cydnabyddiaeth ariannol i aelodau cyfetholedig y prif gynghorau. Mae'r Panel o'r farn y dylai'r cyfraddau hyn fod yn gysylltiedig â'r lefelau o daliadau cydnabyddiaeth ariannol sydd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-19-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

**wedi’u gosod gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, fel y meincnod mwyaf perthnasol, ond peidio â newid y lefelau ar gyfer 2025 i 2026 yw dymuniad y Panel. Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar ôl i’r cyfnod ymgynghori ddod i ben.** (https://www.llyw.cymrunull)

## Unrhyw faterion eraill

**Cwblhaodd y Panel y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod cyfnod ymgynghori'r adroddiad blynyddol drafft cyfarfu'r Panel â chynrychiolwyr o'r sector cynghorau cymuned a thref ac Arweinwyr Grŵp CLILC drwy gydol mis Tachwedd. Bu'r Panel hefyd yn ystyried gohebiaeth oddi wrth brif gyngor a oedd yn ymwneud ag uwch gyflogau, a nodwyd yr adborth a gafwyd o'r adroddiad blynyddol drafft.** (https://www.llyw.cymrunull)

## Y cyfarfod nesaf

Bydd cyfarfod nesaf Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael ei gynnal ar 7 Ionawr 2025.

Os bydd gennych unrhyw faterion yr hoffech eu codi gyda’r Panel, mae croeso ichi gysylltu drwy'r Ysgrifenyddiaeth, cyfeiriad e-bost: **IRPMailbox@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:IRPMailbox@llyw.cymru).

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-19-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).